Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Rhosybol

**Rhosybol**
**Amlwch**
**LL68 9PP**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymuned Rhosybol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymuned Rhosybol |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 - Ysgol cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | d/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 74 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 63 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 6 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 6.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 76.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/09/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gymuned Rhosybol yn ysgol hapus a gweithgar, sy'n gofalu am les y disgyblion yn dda ac yn sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae athrawon yn darparu cwricwlwm amrywiol trwy weithgareddau difyr sy'n ymestyn pob disgybl i ddatblygu a magu hyder i ddysgu. Mae'r ardaloedd dysgu yn fannau diddorol, ac mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardaloedd allanol er mwyn i'r disgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau. Mae disgyblion yn mwynhau gweithgareddau yn yr awyr agored, er enghraifft wrth adeiladu lloches yn ysgol y goedwig, gan ddatblygu hyder a dyfalbarhad wrth gydweithio a datrys problemau. Mae'r elfen deuluol i'w gweld yn amlwg yn y berthynas agos sy'n datblygu rhwng disgyblion ar draws yr ystod oedran. Mae'r disgyblion hŷn yn esiampl arbennig ar gyfer y disgyblion ieuengaf, ac yn mwynhau eu cwmni yn ystod digwyddiadau ysgol gyfan ac amseroedd egwyl a chinio.

Mae disgyblion yn siarad Cymraeg yn naturiol yn eu dysgu a'u chwarae. Maent yn datblygu medrau darllen cadarn ac mae hyn yn cyfoethogi eu hysgrifennu sydd yn arddangos cywirdeb da a chynnwys diddorol. Mae medrau mathemateg a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae athrawon yn darparu amrediad priodol o brofiadau digidol ar gyfer y disgyblion, er nad yw'r profiadau hyn yn sicrhau eu bod yn datblygu'r ystod lawn o'u medrau.

Rhoddir pwyslais ar gefnogi disgyblion i ddysgu am eu hardal leol, ac am bwysigrwydd y gymuned glòs sy'n bodoli ym mhentref Rhosybol. Mae athrawon a staff cymorth yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion gyda rhieni, ac yn cynnig cefnogaeth benodol, pan fydd angen.

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol gydag angerdd, ac mae hi, y staff a'r llywodraethwyr yn gwerthuso'r ddarpariaeth yn barhaus gan anelu am y gorau ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud 1 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r ystod lawn o fedrau digidol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Gymuned Rhosybol yn ysgol weithgar, hapus a gofalgar lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r pennaeth yn hynod ymroddedig i'r ysgol ac yn darparu arweinyddiaeth gadarn a chytbwys i'r staff, y rhieni a'r llywodraethwyr. Mae'n bennaeth angerddol sy'n arwain trwy esiampl. Mae ei gweledigaeth o 'Blant hapus, safonau uchel', yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol.

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus o fewn cymuned gynhwysol yr ysgol. Maent yn hyderus bod staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn brydlon pan fydd angen cefnogaeth arnynt. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain yn ddiogel, gan gynnwys ar y rhyngrwyd.

**Ciplun 1: Hyrwyddo ymdeimlad teuluol trwy gynnal lles disgyblion**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'r parodrwydd i rannu a thrafod eu teimladau, pan fo angen. Mae staff yn cefnogi'r disgyblion i ddefnyddio dulliau effeithiol sy'n eu helpu i reoli eu hemosiynau, datblygu empathi a chefnogi lles eu cyfoedion. Mae'r ysgol wedi creu diwylliant lle mae siarad am les emosiynol yn rhan annatod o'r ddarpariaeth. Er enghraifft, maent wedi sefydlu'r ardd les a'r cwt clyd er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd deall emosiynau gwahanol a chefnogi ei gilydd. Mae'r dull hwn yn cynnal ymdeimlad o berthyn ac yn hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae'r berthynas weithio agos a hynod gefnogol rhwng y disgyblion a'r staff yn nodwedd arbennig. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda iawn, gan ganolbwyntio ar ddatblygu eu hyder a'u dyfalbarhad wrth ddysgu. Mae athrawon yn cynllunio ystod gyfoethog o weithgareddau, gan ystyried syniadau'r disgyblion a'u haddasu'n fedrus ar gyfer gwahanol grwpiau. Maent yn ystyried cynnydd a chyflawniad disgyblion yn fedrus wrth gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu.

Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion yn barhaus. Pan fydd angen hwb ychwanegol ar ddisgybl, mae staff yn ymateb yn amserol er mwyn darparu cefnogaeth ar eu cyfer i ddatblygu medrau penodol. Maent yn cydweithio'n agos â phartneriaid arbenigol wrth gynnal disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol, gan rannu gwybodaeth a thrafod cynnydd a lles disgyblion gyda rhieni.

Mae'r ardaloedd dysgu yn fannau ysgogol a lliwgar lle mae staff yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fwynhau datblygu eu medrau, y tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau'n annibynnol mewn cyd-destunau ystyrlon. Yn ystod gweithgareddau, mae bron bob disgybl yn canolbwyntio'n ardderchog, gan drafod eu dysgu a rhannu eu syniadau yn fyrlymus. Maent yn gwerthfawrogi bod athrawon yn ystyried eu syniadau am wahanol themâu. O oedran cynnar, mae disgyblion yn dechrau dethol y gweithgaredd a'r her sydd fwyaf addas ar eu cyfer nhw. Mae'r disgyblion hŷn yn dyfalbarhau'n dda, er enghraifft wrth ddethol tasgau o'r carwsél gweithgareddau.

Mae acenion a thafodiaith naturiol Ynys Môn i'w clywed fel rhan greiddiol o gyfoeth iaith y disgyblion, ac maent yn ei defnyddio'n gwbl naturiol yn eu dysgu a'u chwarae. Mae'r holl staff yn defnyddio Cymraeg yn fedrus ac yn arddel yr iaith yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel, gan gynnig cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion a'r rhai sy'n hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg. Mae'r disgyblion yn egluro eu dysgu a'u syniadau yn llwyddiannus gan ddefnyddio geirfa a phatrymau sy'n gynyddol gywir.

Mae'r plant ieuengaf yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol ac yn datblygu medrau corfforol a medrau modur mân priodol wrth chwarae a dysgu gan ddefnyddio gwahanol adnoddau. Maent yn dod i adnabod seiniau llythrennau yn gyflym, ac yn cyfri hyd at ddeg a thu hwnt yn frwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn darllen yn hyderus, gyda llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn darllen yn rhugl gan ddefnyddio amrediad da o ddulliau i ddehongli a chyfleu geiriau anghyfarwydd. Mae'r cynnydd ym medrau darllen y disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau ysgrifennu'r rhan fwyaf ohonynt. Mae'r disgyblion hynaf yn cynnwys ansoddeiriau a chymariaethau diddorol wrth gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth greu adroddiad yn amlinellu annhegwch y ffaith nad oedd merched yn cael cymryd rhan yn y gemau Olympaidd yn y gorffennol.

Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus er mwyn datblygu medrau disgyblion yn adeiladol dros gyfnod. Darperir cyfleoedd gwerthfawr iddynt gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws yr ystod meysydd dysgu, er enghraifft wrth i'r disgyblion ieuengaf ymchwilio i feintiau cynwysyddion gwahanol. Mae staff yn cyflwyno gweithgareddau ymestynnol sy'n herio disgyblion i ddefnyddio amrediad o fedrau rhif, er enghraifft wrth ystyried costau trefnu priodas Branwen a Matholwch. Mae staff yn holi'r disgyblion yn fedrus ac yn darparu adborth buddiol er mwyn eu cefnogi i ddatblygu eu dysgu ymhellach.

Darperir cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio apiau defnyddiol i gofnodi eu gwaith, er enghraifft wrth recordio eu hunain yn canu caneuon cyfarwydd am anifeiliaid. Mae lleiafrif o'r disgyblion hynaf yn creu gwefan yn annibynnol ar destun newid hinsawdd. Er hyn, nid yw staff yn darparu digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu'r ystod lawn o'u medrau digidol.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Trwy efelychu darluniau arlunwyr lleol a gweithgareddau cerddorol, mae disgyblion yn datblygu hyder i fynegi eu hunain mewn amrywiol gyfryngau. Er enghraifft, yn sgil gweithdy cerddorol, mae disgyblion yn creu perfformiadau ar ffurf band taro yn ystod amser egwyl.

Elfen gref o waith yr ysgol yw'r modd maent yn sefydlu eu cwricwlwm yn eu milltir sgwâr yn Ynys Môn. Mae'r ysgol yn rhan ganolog o'i chymuned ac mae staff yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am hanes a threftadaeth yr ardal ynghyd â materion a heriau cyfoes sy'n wynebu'r ynys.

**Ciplun 2: Datblygu cwricwlwm sydd wedi ei wreiddio'n lleol**

Fel rhan o weithgareddau clwstwr, cynhyrchodd y disgyblion gyflwyniadau digidol effeithiol yn disgrifio Ysgol Gymuned Rhosybol a mynegi eu teimladau am eu hardal leol. Maent yn cyfeirio at ddaearyddiaeth Môn ac at fywyd cymdeithasol a diwylliannol yr ynys. Paratôdd y disgyblion hŷn lythyrau i'w hanfon at wleidyddion lleol yn trafod eu teimladau am y cynlluniau i adeiladu trydydd pont dros y Fenai. Fel rhan o'u gwaith thema, daethant i ddysgu am sut mae'r diciau mewn gwartheg yn effeithio ar ffermydd Môn. O ganlyniad, mae disgyblion yn gweld budd i'w dysgu wrth iddynt ddwysáu eu dealltwriaeth o fywyd a gwaith trigolion yr Ynys.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso wedi gwreiddio'n gadarn ac yn rhan annatod a pharhaus o waith arweinwyr. Mae'r staff cyfan yn cymryd rhan fuddiol wrth ymateb i ganfyddiadau gweithgareddau gwerthuso, er enghraifft wrth graffu ar ddysgu'r disgyblion, arsylwi sesiynau a chywain barn rhieni. Maent yn monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun gwella yn fanwl ac amserol ac yn gwerthuso effaith eu gwaith ar y ddarpariaeth, ac ar les a chynnydd disgyblion.

Mae gan yr ysgol hanes o wneud gwelliannau buddiol dros amser, er enghraifft wrth ddatblygu medrau darllen disgyblion a datblygu'r ardaloedd dysgu yn yr amgylchedd allanol. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn chwarae rhan lawn mewn gweithgareddau craffu, ac mae eu rôl wrth sicrhau cydbwysedd o gefnogaeth ac atebolrwydd yn aeddfed ac effeithiol. Maent yn cadw golwg fanwl ar y gyllideb a defnydd grantiau er mwyn sicrhau gwerth am arian ac wrth ystyried lles y pennaeth a'r staff.

Mae staff yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol i gefnogi eu datblygiad ac i weithredu newidiadau addysgol yn fwriadus. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu haddysgu a'u gallu i barhau i ddatblygu cwricwlwm yr ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2024